**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Kirsty Williams AC

Y Gweinidog Addysg

Llywodraeth Cymru

11 Chwefror 2020

Annwyl Kirsty,

**Cyllid ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu am y cyllid ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018.

A fyddech cystal â dweud wrthyf sut cafodd y gyfran gyntaf o £1.5 miliwn ei gwario? A allwch roi manylion am y cydbwysedd rhwng gwariant ar bob un o'r gweithgareddau a ganlyn:


- Prynu offerynnau cerdd newydd a rhai sydd mewn perygl
- Sicrhau bod mynediad gan bob disgybl at wersi, arholiadau a chyrsiau
- Talu costau bod yn rhan o gerddorfeydd, corau a bandiau
- Cychwyn ensemble 'roc a phop'
- Cefnogi addasiadau cerddorol cydweithredol

A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi erbyn pryd y bydd awdurdodau lleol yn cael yr ail gyfran o £1.5 miliwn?

Rwy'n gwybod eich bod wedi ymrwymo i sicrhau bod pob person ifanc yn gallu datblygu ei dalent cerddorol a chyflawni ei lawn botensial, a'ch bod yn awyddus i wrthdroi'r dirywiad yng nghyllid addysg gerddoriaeth. Rwy'n gefnogol o hyn a hoffwn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch y cyllid

ychwanegol hwn. A fyddech cystal ag anfon y wybodaeth hon erbyn 9 Mawrth er mwyn llywio ein gwaith?

Yn gywir,



Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref
Bethan Sayad AC
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

12 Mawrth 2020

Annwyl Bethan,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Chwefror 2020, ynghylch ariannu gwasanaethau cerddoriaeth. Nid oes gennym wybodaeth am y gweithgareddau penodol yr ydych wedi gofyn amdanynt.

Yn 2018-19, rhoddwyd £1,5 miliwn i awdurdodau lleol, a nhw benderfynodd sut i ddefnyddio eu dyraniad yn unol ag anghenion lleol i ddarparu unrhyw un, neu gyfuniad o'r opsiynau canlynol; gan ddangos eu bod yn defnyddio'r arian mewn ffordd arloesol a chreadigol:

- **Cefnogaeth i Brydau Ysgol am Ddim**

  Sicrhau mynediad i'r rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim drwy sefydlu cronfa briodol yn benodol i'w defnyddio ar gyfer gwersi, arholiadau, cyrsiau ac adnoddau.

- **Mynediad i ensemble**

  Lle mae taliadau am fynychu cerddorfeydd/corau/bandiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wedi'u cyflwyno, dylid dyrannu cyllid i gynyddu presenoldeb a sicrhau darpariaeth reolaidd.

- **Offerynnau**

  Ar ôl ymgynghori drwy CAGAC yn gyntaf i nodi unrhyw stoc dros ben sy'n cael ei gadw'n ganolog ar hyn o bryd o ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer y disgyblion, dyrannu arian i brynu offerynnau cerdd, neu gyfrannu arian tuag at offerynnau mewn perygl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- **<u>Mynediad a chynhwysiant</u>**

  Er mwyn ailfywiogi'r niferoedd yng nghyfnod allweddol 2 mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth dosbarth cyfan wedi'i datblygu, dylid dyrannu cyllid er mwyn caniatáu i gymaint o blant â phosibl gael y profiad o ganu offeryn neu ganu gyda'r bwriad o gael gwersi pellach.

- **<u>Dilyniant a chyflawniad</u>**

  Lle mae codi tâl am wersi wedi golygu bod myfyrwyr yn gorfod rhannu gwersi mewn grwpiau amhriodol sydd wedi arwain at ddirywiad mewn cyflawniad, dylid dyrannu cyllid i sicrhau bod darpariaeth ddigonol yn cael ei hadfer. Yn benodol, lle nodwyd bylchau yn yr ystod o ddarpariaeth (offerynnau lleiafrifol, a nifer yr offerynwyr).

- **<u>Cymorth ar gyfer cerddoriaeth ar lefel TGAU a Safon Uwch</u>**

  Lle mae ysgolion, o ganlyniad i doriadau yn y gyllideb, wedi'u gorfodi i drosglwyddo tâl am ddarpariaeth i fyfyrwyr, dylid dyrannu cyllid i sicrhau bod myfyrwyr sy'n dewis astudio cerddoriaeth ar lefel TGAU a Safon Uwch yn cael gwersi priodol er mwyn cael y canlyniad gorau posibl yn elfen ymarferol eu cymhwyster.

- **<u>Ensemble roc a phop</u>**

  I gychwyn ensemble o'r fath, er mwyn rhoi cyfle cerddorol i fyfyrwyr na fyddent , efallai, wedi ei gael fel arall.

- **<u>Dosbarthiadau meistr</u>**

  Opsiwn i wasanaethau cerddoriaeth drefnu dosbarthiadau meistr fel y gwelant yn briodol mewn cyd-destun o'u dewis gydag unigolion neu grwpiau o gerddorion allweddol.

- **<u>Trefniadau cydweithredol</u>**

  Yn yr awdurdodau lleol hynny lle mae gwasanaethau cerddoriaeth wedi'u torri a threfniadau cydweithredu wedi'u sefydlu, gellid dyrannu cyllid i gefnogi'r trefniadau hyn.

Mae awdurdodau lleol wedi adrodd ar y gweithgareddau hynny sydd wedi'u cefnogi o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn ac maent yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau fel cymorthdalu i hyfforddi grwpiau, costau ensemble cerddoriaeth, costau benthyciadau offerynnau, cymorthdaliadau a ddarperir i ysgolion i dargedu darpariaeth ddi-dâl ar gyfer dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim gan gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael cymorth unigol a chymorth grŵp, mynediad i wahanol ysgolion cerdd, corau a bandiau a mentrau dosbarth cyfan.

Yn 2019-20, yn ogystal â chaffael astudiaeth ddichonoldeb i nodi ac asesu opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau cerddoriaeth, dyrannwyd £1.4 miliwn i awdurdodau lleol i'w ddefnyddio yn ôl yr un meini prawf a ddefnyddiwyd yn 2018-19, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cyhoeddwyd y llythyr grant ar 21 Tachwedd 2019, gyda'r un dull o ddyrannu.

Yn ogystal, rhoddais £100,000 i Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn 2018-19 i gefnogi'r gwasanaethau cerddoriaeth sy’n cael eu darparu ganddynt, a’r elfennau canlynol yn benodol:


- Parhau i roi cymhorthdal ar gyfer cost pob un o'r ensembles cenedlaethol er mwyn sicrhau nad yw cost yn rhwystr rhag cymryd rhan.
- Parhau â chynnig Cymru gyfan i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion myfyrwyr mewn amrywiaeth o leoliadau
- Cynyddu mynediad i'r ensembles cenedlaethol i ystod fwy amrywiol o bobl ifanc ledled Cymru

Yn 2019-20, darparwyd £190,000 arall i Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru i gefnogi'r gwaith pwysig hwn. Darparwyd yr £190,000 ychwanegol ar gyfer diffyg o ran cyllid.

Fel y gwyddoch, mae fy swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn dilyn adroddiad dichonoldeb y gwasanaeth cerddoriaeth i ystyried sut y byddwn yn parhau i gefnogi gwasanaethau addysg cerddoriaeth yn y dyfodol.

Gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education